# SL(6)538 – Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) ("Rheoliadau 2007") yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi darpariaethau penodol yn Rheoliad (EC) Rhif 1924/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 20 Rhagfyr 2006 ar honiadau am faethiad ac iechyd a wneir am fwydydd ("Rheoliad 1924/2006"). Mae rheoliad 1924/2006 yn ddeddfwriaeth uniongyrchol wedi'i chymathu.

Mae rheoliad 1924/2006 yn rheoleiddio'r defnydd o honiadau am faethiad ac iechyd wrth labelu, cyflwyno neu hysbysebu bwyd. Mae Rheoliadau 2007 yn darparu ei bod yn drosedd i fynd yn groes i ddarpariaethau penodedig Rheoliad 1924/2006. Mae Rheoliadau 2007 hefyd yn cymhwyso darpariaethau penodol yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 ("Deddf 1990") at ddibenion Rheoliadau 2007.

Mae Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau 2007 i wneud newidiadau i'r drefn orfodi. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso darpariaethau diwygiedig Deddf 1990 i'r Rheoliadau, yn benodol i gyflwyno trefn hysbysiadau gwella ochr yn ochr â'r sancsiynau troseddol presennol.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y chwe phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r rhagymadrodd i'r Rheoliadau yn cyfeirio at erthygl 9 o "*Reoliad Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 28 Ionawr 2002(1) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd*". Dylid cyfeirio at y Rheoliad hwn fel "***Rheoliad (EC) Rhif 178/2002** Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 28 Ionawr 2002…*" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam na chyfeiriwyd at y teitl llawn a pham, yn lle hynny, mae gwybodaeth er adnabod wedi'i chynnwys yn y troednodyn, nad yw'n rhan weithredol o'r offeryn.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 2(2) yn mewnosod diffiniad o'r term "darpariaeth benodedig o'r Rheoliad" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2007. Mae rheoliad 2(1) presennol o Reoliadau 2007 hefyd yn cynnwys diffiniad o'r term "y Rheoliad".

Defnyddir y termau hefyd ym mharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen, a fewnosodir yn Rheoliadau 2007 gan reoliad 2(6), sy'n addasu darpariaethau Deddf 1990. Fodd bynnag, nid oes ystyr wedi'i roi i'r termau yn nhestun addasedig Deddf 1990.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam nad yw'r termau hyn wedi'u mewnosod fel diffiniadau newydd yn nhestun addasedig Deddf 1990.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 2(6) yn mewnosod Atodlen newydd yn Rheoliadau 2007 sy'n addasu darpariaethau Deddf 1990. Mae paragraff 3 o'r Atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i adran 35 gael ei darllen fel pe bai is-adran (1B) newydd wedi'i mewnosod "ar ôl is-adran (1A)". Fodd bynnag, nid oes is-adran (1A) yn adran 35 o Ddeddf 1990, fel y mae'n gymwys o ran Cymru. Mae yna is-adran (1A) yn adran 35 o Ddeddf 1990, fel y mae'n gymwys o ran yr Alban.

O'r herwydd mae'n ymddangos nad yw lleoliad yr addasiad wedi'i ddisgrifio'n gywir a bod y rhif "(1B)" yn anghywir.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 4 o'r Atodlen a fewnosodwyd gan reoliad 2(6) yn darparu bod pennawd adran 37 o Ddeddf 1990 i'w ddarllen fel pe bai'r geiriau "or sheriff" wedi eu hepgor. Mae paragraffau 5 i 7, wedyn, yn addasu testun is-adrannau (1), (5) a (6) o adran 37 i ddileu cyfeiriadau at y "sheriff", ymhlith pethau eraill. Fodd bynnag, mae is-adran (4) o adran 37 hefyd yn cynnwys cyfeiriad at y "sheriff" nad yw wedi'i hepgor na'i addasu.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad yw'r cyfeiriad at y "sheriff" yn adran 37(4) o Ddeddf 1990 wedi'i addasu.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 5 o'r Atodlen a fewnosodwyd gan reoliad 2(6) yn addasu is-adran (1) o adran 37 o Ddeddf 1990. Effaith yr addasiad hwnnw yw nad oes, mwyach, dri pharagraff yn yr

isadran honno. Fodd bynnag, mae is-adran (2) o adran 37 yn cynnwys cyfeiriad at "subsection (1)(c)" ac nid yw wedi ei haddasu.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru pam fod cyfeiriad at is-adran (1)(c) yn parhau yn adran 37(2).

6. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae paragraff 5 o'r Atodlen newydd a fewnosodir gan reoliad 2(6) yn addasu adran 37(1) o Ddeddf 1990 fel y caiff unrhyw berson sy'n berson a dramgwyddir gan benderfyniad swyddog anawdurdodedig i awdurdod gorfodi ("an unauthorised officer of an enforcement authority") i gyflwyno hysbysiad gwella, apelio i'r llys ynadon. Nid yw'n ymddangos bod yr addasiad hwn yn cael unrhyw effaith oherwydd caiff hysbysiad gwella ei gyflwyno gan swyddog <u>**awdurdodedig**</u> ("<u>**authorised**</u> officer") i awdurdod gorfodi (pwyslais wedi'i ychwanegu).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

7. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 3.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at "Gyfraith yr UE a Ddargedwir" a "Rheoliadau'r UE a ddargedwir". O 1 Ionawr 2024 ymlaen, dylid cyfeirio at ddeddfwriaeth o'r fath fel "cyfraith gymathedig" yn unol ag adran 5 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

8. **Rheol Sefydlog 21.2(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y gallai awdurdodau lleol weld hysbysiadau gorfodi fel opsiwn gwell ar gyfer gorfodi'r safonau na'r llwybr troseddol presennol, a all fod yn gymhleth a chostus. Yng ngoleuni hyn, gofynnir i Lywodraeth Cymru:

a) A yw wedi ystyried y risg y bydd awdurdodau lleol, ar sail cost yn dewis y llwybr hysbysiad gorfodi hyd yn oed lle gallai'r llwybr troseddol fod yn fwy priodol, ac

b) A yw hyn yn creu unrhyw risg y gallai'r Rheoliadau fod yn gam yn ôl o ran gorfodi'r safonau a bennir yn Rheoliad 1924/2006?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau adrodd technegol ac ail bwynt rhinweddau craffu.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Tachwedd 2024 ac mae'n adrodd i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.